

Toadhall Montessori Nurseries, Cardiff Case study on National Minimum Standards key changes.

Following the announcement of the updated [National Minimum Standards](#) (NMS) in May 2023, NDNA Cymru looked how the key changes to the Paediatric First Aid training requirements (Standard 10: Healthcare) linked to NDNA Millie's Mark.

As we know, following the consultation last year and the feedback, one of the changes was to strengthen the paediatric first aid training. To allow providers to adhere to the new qualification requirements they have up until the end of November 2024.

Annex B within the NMS outlines clear information on the course content, which you will need to renew every 3 years. However, it is recommended that paediatric first aiders undertake annual refresher training. Providers are required to display certificates and list of staff who have a current Paediatric First Aid/ Emergency Paediatric First Aid Certificate.

By increasing the number of staff that are trained in Paediatric First Aid, could reduce the likelihood of accidents and raise confidence around safety awareness, for children in childcare.

Providers should be mindful of the layout of the environment to ensure that in an emergency that trained staff can act quickly and appropriately, whilst taking into account the number of children and staff on the premises each day.

Toadhall Montessori Nurseries, Cardiff recently embarked on NDNA [Millie's Mark](#), whereby all the staff have ensured they are fully up to date with the First Aid training.



‘The benefits for staff having and renewing First Aid gives staff the confidence in dealing with any situations or crisis that may arise in the correct way’ stated Toadhall Montessori Nurseries.

Toadhall Montessori Nurseries signed up to NDNA’s [Millie’s Mark](#) as they wanted to all their parents/carers, to feel confident in leaving their children within a safe and secure environment knowing that all staff are Paediatric first aid trained and senior staff trained in Emergency First Aid at work.

As a Millie Mark setting, the setting receives:

- Mentor support
- Confidence audits to use with their team
- Due-diligence factsheet
- Example template of a Lone worker policy and Risk assessment staff audit
- Training matrix templates to complete.

Millie’s Mark will be awarded on completion, as a special endorsement to Toadhall Montessori Nurseries evidencing that they would have gone above and beyond the minimum requirements by having 100% of staff trained in paediatric first aid. Also, ensuring that everything learned during the course s kept alive and in the forefront of practitioners’ minds so that they are confident, ready and capable. The Millie’s Mark acknowledges that children’s safety is at the forefront of practitioners mind when caring for children.

[Toadhall Montessori Nurseries](#), Cardiff stated:

‘The benefits for children allows all children to be cared for in the correct way if and when First Aid is needed, making the children feel safe and happy within their nursery environment’.

Here the staff in Toadhall Montessori Nurseries, Cardiff show the children how to apply Cardiopulmonary resuscitation (CPR).



Nurseries and other early years settings across Wales can now sign up for Millie's Mark, an award for best practice in paediatric first aid.

Sandy Clayton from Toadhall Montessori Nurseries in Cardiff, who took part in the Millie's Mark pilot in Wales, said:

"There are many benefits for staff, parents / carers and the children. Giving confident to parents to leave their children in a safe secure environment, but also for the staff to feel capable to deal and cope in an emergency".

For further information on the Millie's Mark visit our website <https://www.milliesmark.com/>

Astudiaeth achos Toadhall Montessori Nurseries, Caerdydd, ar newidiadau allweddol i'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol

Yn dilyn cyhoeddi'r diweddariadau i'r [Safonau Gofynnol Cenedlaethol](#) (NMS) ym mis Mai 2023, edrychodd NDNA Cymru ar sut mae'r newidiadau allweddol i'r gofynion hyfforddi Cymorth Cyntaf Pediatrig (Safon 10: Gofal Iechyd) yn gysylltiedig â Millie's Mark gan NDNA.

Fel y gwyddom, yn dilyn yr ymgynghoriad y llynedd a'r adborth a derbyniwyd, un o'r newidiadau oedd cryfhau'r hyfforddiant Cymorth Cyntaf Pediatrig. Caniateir hyd at ddiwedd mis Tachwedd 2024 i ddarparwyr gwblhau'r hyfforddiant, er mwyn cadw at y gofynion cymhwyster newydd.

Mae Atodiad B yn y NMS yn amlinellu gwybodaeth glir am gynnwys y cwrs, a bydd angen i chi adnewyddu'r cwrs bob 3 blynedd. Fodd bynnag, argymhellir bod swyddogion sy'n gyfrifol am Gymorth Cyntaf Pediatrig yn ymgymryd â hyfforddiant gloywi blynyddol. Mae'n ofynnol i ddarparwyr arddangos tystysgrifau a rhestr o staff sydd â Thystysgrif Cymorth Cyntaf Pediatrig / Cymorth Cyntaf Brys Pediatrig cyfredol.

Gall cynyddu nifer y staff sydd wedi'u hyfforddi mewn Cymorth Cyntaf Pediatrig leihau'r tebygolrwydd o ddamweiniau a chodi hyder ymarferwyr ynghylch ymwybyddiaeth diogelwch i blant mewn lleoliadau gofal plant.

Dylai darparwyr fod yn ymwybodol o gynllun a gosodiad yr amgylchedd i sicrhau gall staff hyfforddedig weithredu'n gyflym ac yn briodol mewn argyfwng, a hefyd dylent ystyried nifer y plant a'r staff ar y safle bob dydd.

Yn ddiweddar, cychwynnodd Toadhall Montessori Nurseries, Caerdydd ar [Millie's Mark](#) NDNA. Mae'r staff i gyd wedi sicrhau bod eu hyfforddiant Cymorth Cyntaf yn gyfredol.



'Mae'r manteision i staff sy'n meddu ar, ac yn adnewyddu [cymhwyster] Cymorth Cyntaf yn rhoi'r hyder i staff ddelio ag unrhyw sefyllfa neu argyfwng a allai godi yn y ffordd gywir,' meddai Toadhall Montessori Nurseries.

Cofrestrodd Toadhall Montessori Nurseries â [Millie's Mark](#) gan NDNA, am eu bod am i'w holl rieni/gofalwyr deimlo'n hyderus wrth adael eu plant mewn amgylchedd diogel, gan wybod bod yr holl staff wedi'u hyfforddi mewn Cymorth Cyntaf Pediatrig, a bod uwch staff hefyd wedi'u hyfforddi mewn Cymorth Cyntaf Brys yn y gweithle.

Fel lleoliad Millie's Mark, mae'r lleoliad yn derbyn:

- Cefnogaeth mentor
- Archwiliadau hyder i'w defnyddio gyda'r tîm
- Taflen ffeithiau diwydrwydd dyladwy
- Templed enghreifftiol o bolisi gweithiwr unigol ac archwiliad asesiad risg staff
- Templedi matrices hyfforddi i'w cwblhau.

Ar ôl cwblhau Millie's Mark dyfarnir cymeradwyaeth arbennig i Toadhall Montessori Nurseries i ddangos ei bod wedi mynd y tu hwnt i'r gofynion lleiafswm trwy hyfforddi 100% o'i staff mewn Cymorth Cyntaf Pediatrig. Hefyd, mae'n sicrhau bod popeth a ddysgwyd yn ystod y cwrs yn cael ei gadw'n fyw ac ar flaen meddyliau yr ymarferwyr, fel eu bod yn hyderus, yn barod ac yn alluog. Mae Millie's Mark yn cydnabod bod diogelwch plant yn flaenoriaeth i ymarferwyr wrth ofalu am blant.

Meddai [Toadhall Montessori Nurseries](#), Caerdydd:

'Y budd i blant yw bod Millie's Mark yn caniatáu gofal am bob plentyn yn y ffordd gywir os a phan fo angen Cymorth Cyntaf, gan wneud i'r plant deimlo'n ddiogel ac yn hapus o fewn amgylchedd eu meithrin'.

Yma, mae'r staff ym Toadhall Montessori Nurseries, Caerdydd, yn dangos i'r plant sut i wneud dadebru Cardio-pwlmonaidd (CPR).



Gall meithrinfeydd a lleoliadau blynyddoedd cynnar eraill ledled Cymru nawr gofrestru ar gyfer Millie's Mark, gwobr am arfer gorau mewn Cymorth Cyntaf Pediatrig.

Dywedodd Sandy Clayton o Toadhall Montessori Nurseries yng Nghaerdydd, a gymerodd ran ym mheilod Millie's Mark yng Nghymru:

“Mae llawer o fanteision i staff, rhieni / gofawyr a'r plant. Mae'n rhoi hyder i rieni adael eu plant mewn amgylchedd diogel ond hefyd i'r staff deimlo'n alluog i ddelio gyda, ac ymdopi mewn argyfwng”.

I gael rhagor o wybodaeth am Millie's Mark, ewch i'n gwefan <https://www.milliesmark.com/>